



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

21 Chwefror 2018

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Calendr Cyfarfodydd

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1. Gwneud cais i'r Cyd-bwyllgor gytuno ar y rhaglen cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

2.0 Cefndir

2.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth ar yr amod bod isafswm o dri chyfarfod mewn blwyddyn, gydag un ohonynt yn cael ei nodi fel y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Cytunir ar leoliad y cyfarfodydd gan y Cyd-bwyllgor.

2.2 Yn Atodiad 1, cynigir amserlen cyfarfodydd (drafft) i'w mabwysiadu.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Cynigir y bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor:

4.1.1 Gymeradwyo'r calendr cyfarfodydd fel y'u cynigir yn Atodiad 1.

4.1.2 Rhoi awdurdod i'r Cadeirydd wneud newidiadau i'r calendr os oes angen.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghorwyd â chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru er mwyn osgoi unrhyw gyd-daro â chyfarfodydd Cyngor.

9.0 Atodiadau

Atodiad 1: Cyfarfodydd arfaethedig diwygiedig Cyd-bwyllgor GwE 2018/19

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

Swyddog Cyllid Statudol:

Mae dyddiadau arfaethedig cyfarfodydd Cydbwyllgor GwE, fel y'u cynigir yma, yn addas i bwrpas. Yn benodol, bydd 4 Gorffennaf 2018 yn amserol ar gyfer derbyn cyfrifon cyn-archwiliad 2017/18, tra bydd 26 Medi 2018 yn amserol ar gyfer derbyn a chymeradwyo adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar gyfrifon 2017/18, sy'n ofyniad statudol orfodol cyn 30 Medi.

Atodiad 1:

Cyfarfodydd arfaethedig diwygiedig Cyd-bwyllgor GwE 2018-2019

CYFARFOD	DYDDIAD	AMSER	LLEOLIAD
Cyd-Bwyllgor GwE	04/07/2018	10.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	26/09/2018	2.00pm	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	28/11/2018	10.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	20/02/2019	10.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	22/05/2019	10.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn